Bore Sul, Hydref 6ed, 2019

Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma, Mae'r oedfa yng ngofal Eirian, a chriw Efail Isaf. Rhown groeso arbennig i Elenid Jones fu'n aelod yma dros flynyddoedd lawer. Diolch hefyd i Brengain Rhys a Huw Griffiths am eu cyfraniadau hwythau. Sian Elin sy'n cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Hydref 13 – Y Parchg. Aled Edwards gyda Huw Roberts, Sian yn cyfeilio

Hydref 20 – Sul Cynhaeaf yr Ysgol Sul, Bethan yn cyfeilio yn cyfeilio

Hydref 27- Karen Owen y bardd gydag Emlyn Davies, Eleri Huws yn cyfeilio

Tachwedd 3 – Sul Pentref Tonteg a Phentre'r Eglwys

Tachwedd 10 – Sul Heddwch yng ngofal Geraint Wyn, Gwion Evans a'r Parchg Gethin Rhys

Tachwedd 17 – y Parchg. Dyfrig Rees a Mike West

Tachwedd 24 – y Parchg Gethin Rhys gyda Gwerfyl Morse

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar
07539452130

ELUSENNAU 2019

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru & CRICA (ymchwilio i Glefyd Crohn a chefnogi dioddefwyr ifanc).

Newyddion teuluol:

Llongyfarchiadau mawr i Catrin a James Manisty. Mae Helen Middleton wrth ei bodd fel mamgu! Hefyd, mae Ysbyty Morgannwg wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn gweld gormod o Pat Edmunds ac Ann Rees. Dymuniadau gorau i'r ddwy am wellhad buan wedi cyfnodau anodd.

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 11 Hydref 2019 am 8.00pm
Parchedig Ddr R ALUN EVANS yn siarad ar y testun
'Heddwch yn y Ddinas'
yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Tabernacl

Y Ganolfan
7.30 Nos Fawrth
8 Hydref 2019

NOS SUL 13 HYDREF

NODWCH: CANSLWYD Y RECORDIAD O HAWL I FOLI GAN Y CWMNI RECORDIO.

"Un o heriau mawr yr eglwys yn ei blynyddoedd cynnar oedd y cymundeb. O'r cychwyn fe sefydlwyd hwn fel pryd bwyd oedd yn trin pawb yn gydradd. O gefndir diwylliannol y ganrif gyntaf, roedd hi'n her fawr i'r cyfoethog a'r tlawd gyd-gwrdd fel pobl cydradd dros y cymundeb. Doedd hyn ddim yn digwydd yn eu bywydau fel arall".

Shane Claiborne, radical Americanaidd

HELPU'R TRYSORYDD GYDA SIECIAU

Ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar mae'r banciau wedi gwrthod derbyn siec am nad yw'r geiriad arno yn cydymffurfio air-am-air gydag enw swyddogol y cyfrif. ..... felly, mae Arwyn Jones (ein trysorydd) yn gofyn yn garedig am i bob un ohonom ni i gofio pan fyddwn yn ysgrifennu siec yn y dyfodol i wneud y swm yn daladwy i:

CAPEL Y TABERNACL, CYF.

Diolch

APÊL MADAGASCAR

Codwyd £60 arall dros frecwast rygbi Sul diwethaf, ac mae ein casgliad ni tua £3,000. Mae'r apêl yn dal ar agor.... Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu'n barod.

15 Hydref - October 15

Merched y Tab

Dydd Mawrth, 15 Hydref, Diwrnod "Shwmae Sumae!". Yn yr Hen Lyfrgell, Porth, am 10.30. Cyfle i sgwrsio gyda grŵp o ddysgwyr.

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Mae stwff newydd bron pob wythnos. Diolch.